

Hawliau Plant



Rydym ni, blant a phobl ifanc Cymru yn gryf ac yn alluog. Codwn ein lleisiau a chyflwynwn ein barn, mae'n hamser ni wedi cyrraedd!

We, the children and young people of Wales are strong and intelligent. We raise our voices and present our opinion, our time has come!



Mewn Partneriaeth â phanel Unicef
Hawliau Plant yr Ysgol

Ein Hawliau Ni!

Mae'r pum deg pedwar hawl sydd gennym ni fel plant yng Nghymru yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), ac felly ni ddylai neb ein rhwystro rhag yr hawliau hyn.



Pwy ydym ni?

Criw o fyfyrwyr o wahanol flynyddoedd wedi ymgasglu at ein gilydd i hybu ein hawliau ydym ni. Ffurfiwyd y panel ym Mis Chwefror ac mae ganddom ni gynllun gweithredu llawn dop er mwyn hyrwyddo ein hawliau yma yng Nghymru, ac i sicrhau bod disgyblion a rhieni Ysgol David Hughes yn ymwybodol ohonynt.

Mae amrediad oedran y panel yn rhedeg o flwyddyn saith hyd at y chweched ddsbarth, ac un o'n nodau yw ehangu'r grŵp drwy gael eu aelod o bob blwyddyn ysgol cyn pen dim.

Ein prif nod y flwyddyn hon yw codi llawer mwy o ymwybyddiaeth am yr hawliau hanfodol hyn sydd gennym ni, fel plant yng Nghymru. Ac drwy gynnal fyrdd weithgareddau ar ein ffordd i gyflawni'r nod hwn!

Os ydych am gael gwybod mwy am ein gwaith, neu hawliau plant yn gyffredinol, ymwelwch â:

Thrydar yr ysgol: @DavidHughesYDH

Gwefan yr ysgol: ysgoldavidhughes.org

Gwefan Comisiynydd Plant Cymru: complantcymru.org.uk

Gwefan Unicef: unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/



Dyma rai aelodau o'r panel wrth eu gwaith



Dyma ddeuddeg o brif hawliau plant Cymru:

1. Mae'r confensiwn yn gymwys i bob un waeth beth.
2. Dylai'r Llywodraeth ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i bob plentyn.
3. Eich hawl i enw a chenedligrwydd.
4. Eich hawl i weld eich teulu os ydynt yn byw mewn gwlad arall.
5. Eich hawl i ddilyn eich crefydd eich hun.
6. Eich hawl i breifatrwydd.
7. Mae'r ddau riant yn rhannu'r cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent bob amser feddwl am yr hyn sydd orau ar gyfer pob plentyn.
8. Eich hawl i fyw yn y lle sydd orau i chi os nad ydych yn gallu byw gyda'ch rhieni.
9. Eich hawl i ofal arbennig a chymorth os ydych yn anabl er mwyn i chi fyw bywyd llawn ac annibynol.
10. Dylid mynd i weld plant nad ydynt yn byw gyda'u teuluoedd yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn iawn.
11. Eich hawl i ddefnyddio eich iaith a dathlu eich diwylliant.
12. Dylech gael eich diogelu rhag cyffuriau peryglus.



Y Comisiynydd Plant:



Ein Comisiynydd cyfredol yw Sally Holland, Albanes sydd wedi dysgu'r Gymraeg. Ei bwriad hi, fel Comisiynydd Plant Cymru yw sicrhau fod y Llywodraeth yn cadw at eu haddewidion sydd yn ymwneud â hawliau plant, a chodi ymwybyddiaeth amdanynt ar hyd a lled y wlad.

Cafodd ei phenodi yn Ebrill 2015, ac mae hi felly ar ei hail flwyddyn allan o saith yn ei swydd hanfodol. Fe ffurfiodd hi Banel Ymgynghorol Plant a Phobl ifanc Cymru y llynedd, ac mae'n fraint bod dau ddisgybl o flwyddyn deg wedi eu derbyn yn aelodau o'r panel, Sam Dunt a Lois Medi.

